CYLCHLYTHYR

RHIFYN 05 • HYDREF 2022

CARFAN GOFAL PLANT RHCT

SHWMAE A CHROESO

I RIFYN YR HYDREF O'N CYLCHLYTHYR.

Mae llawer yn digwydd, felly rydyn ni'n gobeithio bydd y diweddariad yma yn ddefnyddiol i chi.

Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant

Mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant bellach wedi'i gwblhau a gallwch ei weld ar wefan y Cyngor, yma: **www.rctcbc.gov.uk/ADGP**.

Diweddariad am y garfan gofal plant

Rydyn ni'n brysur yn cynllunio ar sut i weithredu ar y blaenoriaethau a gafodd eu nodi yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Mae'r blaenoriaethau y byddwn ni'n eu canolbwyntio arnyn nhw'r flwyddyn yma i'w gweld ar ein gwefan: **www.rctcbc.gov.uk/ADGP**.

Dros y misoedd nesaf, byddwn ni'n cynnal arolygon mewn ysgolion penodol yn ardal Cwm Cynon er mwyn asesu galw a rhoi gwasanaethau newydd ar waith os oes angen. Byddwn ni hefyd yn gweithio gyda darparwyr y tu allan i'r ysgol i roi cymorth iddyn nhw agor yn ystod cyfnodau'r gwyliau er mwyn helpu teuluoedd sydd wedi rhoi gwybod i ni eu bod nhw'n cael trafferth gyda'r math yma o ofal.

Rydyn ni hefyd yn awyddus i gefnogi lleoliadau sydd heb eu cofrestru. Os nad ydy eich darpariaeth wedi'i chofrestru ar hyn o bryd, cysylltwch â ni fel y gallwn ni gynnig cymorth wedi'i deilwra i chi ennill cofrestriad AGC. Gallwn ni gynnig hyfforddiant wedi'i ariannu, cymorth grant a chymorth un i un.

Os, am unrhyw reswm, nad ydych chi'n gallu cofrestru gydag AGC, gall y garfan eich helpu i ddilyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, fel bod modd i chi ddangos eich bod chi'n cynnig gwasanaeth o safon uchel.

Fel bob amser, rydyn ni wedi ymrwymo i ddenu a chefnogi gwarchodwyr plant newydd. Mae gyda ni becyn cymorth wedi'i deilwra ac rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa. Os ydych chi'n adnabod unrhyw un sydd â diddordeb mewn dod yn warchodwr plant, rhowch ein manylion ni iddyn nhw.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg / You are welcome to communicate with us in Welsh.

Carfan Gofal Plant yn RhCT / Childcare Team in RCT
Cynnig Gofal Plant Cymru / The Childcare Offer for Wales – Addysg gynnar a gofal • Early education and care
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Rhondda Cynon Taf / Family Information Service
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
RHONDDA CYNON TAF
51520-23

Cysylltu gyda darparwyr a rhieni

Nawr bod cyfyngiadau COVID wedi lleddfu, rydyn ni wedi gallu ailddechrau ymweld â grwpiau P&T/Ti a Fi ac achlysuron eraill. Rydyn ni'n dod i'r grwpiau yma er mwyn rhoi cyngor i deuluoedd ar y Cynnig Gofal Plant, sut i ddod yn warchodwr plant, neu eu cyfeirio nhw at unrhyw wasanaethau eraill. Bydd Oliver, y Swyddog Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, yn mynychu rhai sesiynau gyda ni a bydd yn gallu helpu teuluoedd gydag ystod eang o ymholiadau. Mae taflen ar gael ar ein gwefan sy'n dangos lle a phryd y byddwn ni'n mynychu'r grwpiau. Bydd y daflen yma hefyd yn cael ei hanfon atoch chi mewn e-bost. Mae croeso i chi ei hanfon at eich teuluoedd ac ymuno â ni. Os ydych chi'n cynnal grŵp P&T/Ti a Fi, cysylltwch â ni a byddwn ni'n hapus iawn i'ch ychwanegu at ein rhestr.

Mae ein hachlysur ymgysylltiad nesaf i ddarparwyr yn cael ei gynnal ar 20 Hydref rhwng 6:30pm a 8pm. Am y tro cyntaf, rydyn ni'n rhoi cynnig ar ddefnyddio model hybrid. Gallwch chi ddod i'n gweld yn y cnawd yn y Clwb i'r Byddar, Pontypridd, neu fewngofnodwch ar-lein. Bydd siaradwyr gwadd yn cynnwys y garfan comisiynu Dechrau'n Deg a bydd diweddariad gan y garfan Gofal Plant mewn perthynas â'r system ddigidol newydd. I gadw eich lle, cliciwch ar y dolenni isod. Rydyn ni'n edrych ymlaen at eich gweld chi i gyd.

Os hoffech chi ddod:
https://www.eventbrite.co.uk/e/406803930507

Os hoffech chi ymuno o bell:
https://www.eventbrite.co.uk/e/406812135047

Ehangu Gwasanaeth Gofal Plant Dechrau'n Deg

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg fesul cam. Y nod yw cynnig lle gofal plant i bob plentyn rhwng 2 a 3 oed, o'r tymor yn dilyn eu penblwydd yn ddwy oed.

Yn RhCT rydyn ni'n paratoi ar gyfer hyn ac mae gyda ni restr o ddarparwyr sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer gofal plant Dechrau'n Deg. Ar hyn o bryd, mae 30 lleoliad wedi'i gymeradwyo, gydag ychydig yn llai na hanner o'r rheiny yn rhai cyfrwng Cymraeg. Os ydych chi'n ddarparwr gofal plant neu'n warchodwr plant, gallwch chi wneud cais i ymuno drwy gofrestru ar eDendroCymru. Mynegwch ddiddordeb mewn **ITT–92447** ac ateb a chyflwyno'r cwestiynau. Os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Helen Fisher-Holland** ar **07824 496497**.

Sesiynau hyfforddi

Bydd manylion am y gyfres nesaf o sesiynau hyfforddi, sy'n cael eu cynnal rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023, yn cael eu rhyddhau ganol mis Tachwedd.

Yn ogystal â'n hyfforddiant gorfodol arferol, byddwn ni'n cynnig hyfforddiant Awtistiaeth Sylw i'r rhai ohonoch chi sydd heb elwa o'r hyfforddiant yma eto. Mae cyrsiau hyfforddi ar Alergenau Bwyd a Diogelwch Bwyd hefyd ar gael yn barhaus. Os oes angen y cyrsiau yma arnoch chi, e-bostiwch **CarfanGofalPlant@rctcbc.gov.uk** i ofyn am le.

Sicrhewch eich bod chi'n dilyn ein grŵp Facebook ac wedi cofrestru ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd er mwyn derbyn yr holl wybodaeth ar sut i gael mynediad at ein sesiynau hyfforddi sydd wedi eu hariannu.

Dim ond nodyn i'ch atgoffa bod yr holl hyfforddiant wedi'i ariannu'n llawn ac y cyntaf i'r felin fydd yn cael y lleoedd. Rhaid i chi roi 48 awr o rybudd i ni os nad ydych chi'n gallu mynychu er mwyn i ni gynnig eich lle i rywun arall.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cysylltu â phob darparwr â chyfrif DEWIS segur i ofyn iddyn nhw ail-greu, neu ddileu, y cyfrifon. Cofiwch, mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn ffordd wych i hysbysebu'ch busnes i rieni a gweithwyr proffesiynol **AM DDIM**. Rydyn ni hefyd yn e-bostio ein holl wybodaeth i restr ddosbarthu'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Felly os dyw eich busnes chi ddim wedi'i restru ar gronfa ddata'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, rydych chi'n colli allan ar gyfle i gael mwy o rieni i weld eich proffil, yn ogystal â cholli diweddariadau pwysig oddi wrthon ni.

I gofrestru neu ddiweddaru'ch cyfrif, e-bostiwch:

GwasanaethGwybodaethiDeuluoedd@rctcbc.gov.uk.

Agoriad swyddogol 'The Hollies'

Yn ddiweddar, agorodd Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, adeilad gofal plant newydd, 'The Hollies', ar safle Ysgol Gynradd Gwauncelyn. Dyma un o naw prosiect cyfalaf rydyn ni wedi ymgymryd ag ef dros y pedair blynedd diweddaf i gynyddu a gwella gwasanaethau gofal plant, yn enwedig ar gyfer darparwyr cyfrwng Cymraeg a darparwyr y Cynnig Gofal Plant.

Oherwydd y nifer cynyddol o blant sy'n mynd i'r ysgol, doedd yr ysgol ddim yn gallu rhoi'r ystafell ddosbarth yr oedd 'The Hollies' yn ei ddefnyddio'n flaenorol. Diolch i gyllid trwy gynllun grant cyfalaf y Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, maen nhw erbyn hyn wedi symud i leoliad newydd ar dir yr ysgol. Mae'r cyllid wedi galluogi'r prosiect i gynyddu darpariaeth y Cynnig Gofal Plant ac ehangu ei wasanaethau ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau.

ADY

Mae'r Adran Mynediad a Chynhwysiant yn cynnal rhaglen barhaus sy'n cynnig hyfforddiant ADY i ddarparwyr. Cafodd yr hyfforddiant Cynllun Chwarae ei gynnal ym mis Medi, ond bydd yn cael ei gynnal eto yn hwyrach yn y flwyddyn. Mae disgwyl i hyfforddiant ar y Broses Atgyfeirio gael ei gynnal ar **16 Tachwedd**. Cafodd modiwl 1 'Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar unigolion a'r unigolyn' ei chynnal yn gynharach ym mis Hydref, ond mae disgwyl i fodiwl 2: 'Cynhwysiant i bawb yn y Blynyddoedd Cynnar' ddigwydd ar **5 Rhagfyr**.

Mae Fforwm y Blynyddoedd Cynnar yn fforwm ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi cael ei greu yn ddiweddar, ac mae disgwyl iddyn nhw gyfarfod nesaf ar **10 Tachwedd**. Dyma gyfle gwych i ofyn cwestiynau a rhannu unrhyw broblemau ac arferion da gyda'ch cyfoedion.

Mae Fforwm y Blynyddoedd Cynnar yn fforwm amlasiantaeth sy'n cwrdd bob mis i drafod plant a allai fod ag ADY. Gallwch chi gyfeirio at y fforwm am unrhyw blentyn y gallech chi fod yn pryderu amdano. Rydyn ni wedi e-bostio'r dyddiadau atoch chi a'u rhannu ar ein tudalen Facebook.

I gadw lle ar y sesiwn hyfforddi, ymunwch â'r fforwm i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, neu am ragor o wybodaeth am Fforwm y Blynyddoedd Cynnar, cysylltwch â **ryan.phillips2@rctcbc.gov.uk**. Os nad ydych chi wedi defnyddio'r Fforwm y Blynyddoedd Cynnar o'r blaen, yna cysylltwch â **luci.hooper@rctcbc.go.uk** am ragor o wybodaeth, neu fynychu'r sesiwn hyfforddi ar y Broses Atgyfeirio.

Fforwm Gwarchod Plant

Cofiwch fod grŵp preifat ar gyfer gwarchodwyr plant wedi cael ei greu ar Facebook i rannu syniadau, cefnogi ac ysbrydoli ein gilydd i gynnig cyfleoedd chwarae penagored. Mae'n ffordd wych o gysylltu â'ch cyfoedion, felly os ydych chi'n warchodwr plant yn RhCT, chwiliwch am ***Curious Adventures, Learning Through Play***.

STOP PRESS!

Mae disgwyl i gyfres arall o gyllid ar gyfer gwaith cyfalaf ar raddfa fach gael ei gadarnhau'n fuan. Dylech chi ddechrau meddwl am beth sydd ei angen arnoch chi i wella eich lleoliad.

Bydd rhagor o wybodaeth ar sut i wneud cais ar gael yn hwyrach ym mis Hydref!

Cyn:



Ar ôl:

Cofiwch fod ein tudalen Facebook breifat yn ffordd wych o weld newyddion diweddaraf y garfan a phartneriaid eraill.

I ymuno, ewch i...

https://www.facebook.com/groups/childcareteamRCT neu chwiliwch am **'RCT Childcare Team'** yn y cyfleuster chwilio ar Facebook.

Os dydych chi ddim eisiau derbyn y cylchlythyrau yma rhagor, rhowch wybod i ni ac fe wnawn ni eich tynnu chi oddi ar ein rhestr ddosbarthu.

Cynnig Gofal Plant Cymru

Mae disgwyl i'r system genedlaethol newydd lansio yn hwyrach yn y tymor, a gall rhieni sydd â phlant cymwys o fis Ionawr 2023 wneud cais o **7 Tachwedd** ymlaen.

Bydd hyn yn cymryd lle'r 11 system sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd gan wahanol awdurdodau lleol ledled Cymru. Ar gyfer y flwyddyn nesaf, bydd yn rhaid i rai ohonoch chi ddefnyddio ein hen system i hawlio cyllid ar gyfer unrhyw blentyn sy'n gymwys ar hyn o bryd. Ond, dim ond tan ddiwedd Awst 2023 y bydd hyn, pan fydd y plant yma yn rhy hen i dderbyn y Cynnig. Os oes gyda chi unrhyw ymholiadau am hyn, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Bydd cofrestru ar gyfer darparwyr yn cael ei gyflwyno yn RhCT o'r wythnos sy'n dechrau **20 Hydref**. Rydyn ni'n cynnal cyfres o sesiynau cymorth i unrhyw un ohonoch chi sydd angen cymorth i gofrestru. Bydd yr amserlen ar gyfer y sesiynau cymorth i ddarparwyr yn cael ei hanfon atoch chi trwy'r ebost ac yn cael ei rhannu ar ein tudalen Facebook **www.rctcbc.gov.uk/childcareoffer.**

Cadwch lygad allan am fanylion. Bydd sesiynau cymorth i rieni yn cael eu cynnal o fis Tachwedd ymlaen ac yn cael eu hysbysebu'n eang.

Fel bob amser, hyrwyddwch y Cynnig i rieni newydd a gofynnwch i ni os ydych chi eisiau unrhyw ddeunydd hyrwyddo.



Cysylltwch â ni...

01443 570048

www.rctcbc.gov.uk/carfangofalplant

Carfan Gofal Plant:
CarfanGofalPlant@rctcbc.gov.uk

Cynnig Gofal Plant Cymru (Darparwyr yn unig):
DarparwyrCynnigGofalPlant@rctcbc.gov.uk

RCT Childcare Team